

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Mehefin 2010

Senario

Cyfeirnod y Papur

6957/01

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen ►

N38460A

©2010 Edexcel Limited.

1/



edexcel 
advancing learning, changing lives

System Fwcio Theatr Dolphin

Mae Theatr Dolphin yn cynnal cynhyrchiad o 'An Inspector Calls' am gyfnod o wythnos. Bydd cyfres o berfformiadau prynhawn a nos er mwyn caniatáu i ddisgyblion fynd fel rhan o'u cwrs TGAU Saesneg.

Mae gan y theatr, sy'n eithaf bach, 120 o seddi.

Mae'r olygfa (*view*) o wyth sedd yn gyfyngedig oherwydd pileri sydd wedi eu gosod mewn manau anghyfleus. Mae'r tocynnau ar gyfer y seddau hyn yn cael eu gwerthu am bris is.

Prisiau'r seddau yw £8 yr un ar gyfer y Seddau Llawr (*stalls*), £12 yr un ar gyfer y Seddau Llawr Blaen a £15 yr un ar gyfer y Cylch. Pris yr wyth sedd gyda golygfa gyfyngedig yw £5 yr un.

Mae gan rai cwsmeriaid statws 'Ffrind' gan eu bod wedi buddsoddi yn y theatr. Mae hawl ganddyn nhw i gael disgownt o 10% ar bris unrhyw docynnau maen nhw'n eu prynu.

Dim ond dros y ffôn y mae modd gwneud ymholiadau a bwcio seddau. Mae'r croesawydd (*receptionist*) yn delio â'r rhain.

Ar hyn o bryd, mae'r theatr yn defnyddio cronfa ddata ffeil fflat ar gyfer y system fwcio. Mae hon yn dueddol o wneud camgymeriadau, fel bwcio seddau ddwywaith.

Mae cyfarwyddwr y theatr, Maggie Coyle, eisiau system fwcio newydd sydd:

- yn ddiogel, ac mae angen enw defnyddiwr a chyfrinair i fynd i mewn iddi
- yn gadarn
- yn reddfól (*intuitive*) ac yn syml ei defnyddio.

Dylai'r sytem newydd allu:

- dangos yn hawdd pa seddau sydd ar gael
- bwcio sedd ar gyfer perfformiad penodol
- ychwanegu cwsmer newydd
- nodi a yw cwsmeriaid eisiau i'w manylion gael eu trosglwyddo i'r adran farchnata neu beidio
- cyfrifo'r disgownt priodol pan fydd 'Ffrind' yn bwcio tocyn
- argraffu'r tocynnau sydd wedi cael eu bwcio ar gyfer pob perfformiad.

Eich tasg chi yw creu cronfa ddata i'r system fwcio newydd a fydd yn bodloni gofynion cyfarwyddwr y theatr.